CYNGOR - DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2019

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas | T Thomas |
| JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | PJ White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, NA Burnett a/ac DG Owen

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

379. DATGAN BUDDIANT

Dim.

380. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 20 Tachwedd 2019 yn wir ac yn gywir.

381. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer fod y Nadolig wedi bod yn gyfnod prysur iawn iddo, ac y bu'n bleser ymweld â chynifer o wahanol ysgolion, grwpiau a sefydliadau a rhannu eu gweithgareddau ar gyfer yr ŵyl.

Roedd hi bob amser yn galondid gweld faint o ysbryd cymunedol sydd i'w gael yn y Fwrdeistref Sirol, ac yr oedd wedi profi gwaith caled ac ymroddiad gwirfoddolwyr, disgyblion a staff yn uniongyrchol.. Gyda hyn mewn golwg, atgoffodd yr Aelodau ynghylch enwebiadau Gwobrau Dinasyddiaeth Flynyddol y Maer. Helpwch ni i wobrwyo

pobl leol sydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau, waeth pa mor fawr neu fach yw eu cyfraniad. Ni fyddai ond yn cymryd ychydig funudau i lenwi ffurflen gais, y gellir ei lawrlwytho o'n gwefan neu wneud cais amdani o Swyddfa'r Maer. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw dydd Gwener 24 Ionawr, a bydd yr enillwyr yn cael eu hanrhydeddu mewn digwyddiad ym mis Mawrth.

Cafodd y Maer y pleser o fynd i Wobrau Cyflawnwr Ifanc blynyddol Bridge FM. Mae'r digwyddiad trawiadol yn gyfle i ddathlu pobl ifanc o bob rhan o'r fwrdeistref sirol ac yn cydnabod eu cyflawniadau ym myd busnes, hyfforddiant, addysg, y celfyddydau, cerddoriaeth a gwaith gwirfoddol. Roedd hi'n noson wych ac yn bleser pur cael cwrdd â chynifer o bobl ifanc sydd yn ymroi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w hardal.

Cynhaliwyd y Gemau Olympage blynyddol ym mis Tachwedd lle lansiwyd y prosiect Super-Agers ar y cyd â chydweithwyr ar draws ardal y bwrdd iechyd, gan gynnwys cynghorau RhCT a Merthyr. Cafodd y Maer yr anrhydedd o agor y diwrnod a fu'n llawn hwyl, ac roedd am longyfarch y staff am drefnu digwyddiad cystal.

Diolchodd y Maer hefyd i bawb a gymerodd ran ym menter y rhodd-galendr adfent er budd Banc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr. Gwerthfawrogwyd pob rhodd yn fawr. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod angen cyfraniadau drwy'r flwyddyn ac anogodd bawb i barhau i roi cymorth wrth symud ymlaen i 2020. Dywedodd hefyd fod gan y Banc Bwyd 11 o Unedau Dosbarthu ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bod tua 50,000 o eitemau bwyd wedi cael eu cyfrannu i'r Banc Bwyd ers ei sefydlu.

Estynnodd y Maer groeso i'r Cynghorydd J Williams a dymuno'n dda iddi ar ôl bod yn absennol o'r cyfarfodydd oherwydd salwch.

I gloi, gan mai dyma oedd cyfarfod olaf y Cyngor cyn y Flwyddyn Newydd, manteisiodd y Maer ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd iach i bawb a oedd yn bresennol.

Y Dirprwy Arweinydd

Cydnabu'r Dirprwy Arweinydd y gall pobl yn aml ei chael hi'n anodd rheoli eu harian ar yr adeg hon o'r flwyddyn, ar drothwy'r Nadolig.

Yn anffodus, gall hyn yn aml achosi iddynt fynd i ddyled.

Efallai y bydd yr aelodau am roi gwybod i'r hetholwyr fod gwasanaeth cymorth galw heibio ar gael i helpu pobl i reoli a goresgyn dyledion, ymdrin â'u hanawsterau ariannol, ymdrin â diweithdra a gwella eu safon byw.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol ar gael yn bennaf i bobl sy'n byw yn hen ardaloedd darparu Cymunedau yn Gyntaf, a gall helpu i ymdrin ag ystod o faterion, o wneud cais am gredyd cynhwysol hyd at ddysgu sut i reoli cyllideb.

Mae'r gwasanaeth ar gael drwy'r swyddfeydd canlynol ym Mhen-y-bont ar Ogwr: Cyngor ar Bopeth, Tŷ Hartshorn ym Maesteg, Meddygfa Tyn-y-coed yn Sarn, Clwb Cymunedol Betws, Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau a chanolfannau swydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd ar wefan Cyngor ar Bopeth.

Gofynnodd i'r Aelodau hefyd atgoffa eu cymunedau y bydd casgliadau gwastraff yn cael eu cynnal ar noswyl Nadolig, ond na chynhelir casgliadau ddydd Nadolig nac ar ddydd San Steffan. Bydd popeth yn cael ei godi ddeuddydd yn ddiweddarach na'r arfer yn ystod gweddill yr wythnos honno, gan gynnwys dydd Sul 29 Rhagfyr.

Gan fod llawer o wastraff yn cael ei gynhyrchu dros y Nadolig, caiff deiliaid tai hefyd roi bag ychwanegol o wastraff na ellir ei ailgylchu gyda'r casgliad cyntaf ar ôl y Nadolig.

Cesglir gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu fel arfer ar Nos Galan, ond ddim ar Ddydd Calan. Bydd casgliadau ddiwrnod yn hwyrach yr wythnos honno hyd at ddydd Sadwrn 4 Ionawr, gyda'r holl gasgliadau'n dychwelyd i'r diwrnodiau arferol ddydd Llun 6 Ionawr.

Gofynnodd i'r rhai a oedd yn bresennol annog deiliaid tai yn eu hardaloedd i ailgylchu cymaint o wastraff ag sy'n bosibl. Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod sydd yn perfformio orau ond un yng Nghymru o ran y modd yr ydym yn trin gwastraff, a'r prif eitemau na ellir eu hailgylchu dros yr Ŵyl fel arfer yw papur lapio, plastig du, deunydd lapio seloffen, deunydd lapio swigod a pholystyren.

Gellir ailgylchu'r mwyafrif helaeth o'r gwastraff sy'n weddill, gan gynnwys eitemau fel cardiau Nadolig, amlenni papur, deunydd pecynnu cardbord, gweddillion y twrci a hyd yn oed y tunffoil oddi ar addurniadau siocled y goeden Nadolig.

Ar ôl y Nadolig, bydd deiliaid tai sydd wedi prynu coeden Nadolig go iawn yn gallu ei hailgylchu drwy fynd â'r goeden i ganolfan ailgylchu gymunedol.

Gofynnodd i'r Aelodau hefyd atgoffa eu hetholwyr y gellir cyfrannu eitemau mewn cyflwr da nad oes mo'u hangen bellach i siop ailddefnyddio'r Cyngor yng Nghanolfan Maesteg.

Gorffennodd y Dirprwy Arweinydd drwy ddweud bod manylion llawn y trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu dros gyfnod yr Ŵyl i'w cael ar wefan y Cyngor.

Aelod Cabinet - Cymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau y bydd menter fawr newydd yn ceisio trawsnewid rhai o fannau gwyrdd agored y fwrdeistref sirol dros y pedair blynedd nesaf.

Bydd y prosiect Cysylltiadau Gwyrdd a drefnir gan yr elusen Plantlife ac a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, yn canolbwyntio ar ardaloedd fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Parc Gwledig Bryngarw a mwy.

Roedd y cynllun yn annog cymunedau i ymwneud yn fwy uniongyrchol â'u mannau gwyrdd lleol, drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli, dysgu a mwynhau ynddynt.

Roedd yn ceisio creu budd parhaol drwy hyfforddi gwirfoddolwyr, addysgwyr a phartneriaid lleol, a'u helpu i feithrin sgiliau newydd o ran gweithgarwch adeiladu, cadwraeth a llesiant.

Roedd hon yn fenter ardderchog a oedd yn annog pobl i ddatblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned. Yr oedd yn hyrwyddo cynaliadwyedd a chynnydd mewn llesiant, ac yn ffodd wych o wneud ffrindiau newydd a mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Dywedodd y gall Aelodau gefnogi twf y cynllun Cysylltiadau Gwyrdd drwy roi gwybod i bobl yn u gymuned leol fod mwy o wybodaeth ar gael yn uniongyrchol o wefan Plantlife.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau i'r holl staff, yn enwedig y rhai hynny yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau am eu cefnogaeth barhaus eleni, a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Wrth i'r Nadolig ddynesu'n gyflym, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â sefydliadau lleol fel Wallich, the Zone, Gwalia, Cynghorau lleol a mwy, i gefnogi pobl sy'n cysgu allan unwaith eto'r gaeaf hwn.

Byddai'n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gan bobl ddigartref le cynnes a diogel i gysgu, ac y gallant fanteisio ar amrywiaeth o gymorth a chefnogaeth.

Bob dydd, bydd The Wallich ar Park Street yn darparu brecwast poeth a diod rhwng 6:30am a 9:00am yn ogystal â sachau cysgu, dillad cynnes, nwyddau ymolchi ac eitemau eraill pwysig.

Rhwng 9.30am a hanner dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener bydd canolfan galw heibio yn cynnig amgylchedd diogel sy'n cynnwys cyfleusterau ymolchi a mynediad at ffôn a chyfrifiadur.

Bydd y gwasanaeth galw heibio yn symud i'r Zone yn y prynhawniau rhwng 1.30pm a 4.30pm yn ystod yr wythnos, a rhwng 9.00am a hanner ddydd ar ddyddiau Sadwrn.

Yn y nos bydd y cynllun llawr agored yn cynnig lle diogel, sych a chynnes i gysgu. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael rhwng 8.00pm ac 8.00am yn The Elms ar Stad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, gydag oriau estynedig ar Ŵyl y Banc neu mewn tywydd difrifol.

Caiff yr arwynebedd llawr ei ddyrannu bob dydd, a gall pobl ymgeisio rhwng 3pm a 5pm drwy Ganolfan Gymorth Leol Gwalia sydd yng Nghanolfan Stryd Bracla.

Os bydd unrhyw un yn pryderu ynghylch rhywun sy'n cysgu allan, gall hysbysu'r awdurdod lleol drwy ddefnyddio ap Street Link sydd ar gael yn www.streetlink.org.uk.

Ceir manylion cyswllt y tîm Datrysiadau Tai ar wefan y Cyngor.

<u>Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr yn meddwl am ffyrdd unigryw o godi arian er mwyn creu gardd synhwyraidd newydd, ac roedd yn sicr y byddai'r Aelodau am ddangos eu cefnogaeth.

Gan fod ymchwil yn dangos bod treulio amser yn yr awyr agored ac yn symud o gwmpas yn gallu helpu i leihau tensiwn a gorbryder ymhlith pobl â dementia, mae'r ganolfan am ddatblygu gofod pwrpasol lle gallant fynd am dro'n rhwydd ac ymarfer corff.

Bydd yr ardd synhwyraidd hefyd o gymorth i bobl ag anableddau dysgu a chorfforol, ac yn rhoi cyfleuster iddynt sy'n cynnig cyfleoedd unigryw i ddefnyddio eu synhwyrau - cyffwrdd, teimlo ac arogli.

Bydd yr ardd synhwyraidd yn gwella safon y gofal a ddarperir eisoes yn y ganolfan adnoddau, a gobeithiaf y bydd yr aelodau'n helpu i annog eu hetholwyr i gefnogi'r ymdrechion hyn.

Mae banc ailgylchu cwbl newydd wedi cael ei osod gyferbyn â Lidl ym Mharc Manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr lle gellir cyfrannu dillad, esgidiau a llieiniau/dillad gwely. Bydd y banc yn cael ei wagio'n wythnosol a'r nwydau a gyfrannwyd yn cael eu cyfnewid am arian parod ar sail pwysau.

Gall trigolion hefyd helpu i godi arian drwy ddefnyddio ffôn clyfar neu lechen i siopa ar-lein drwy ap o'r enw 'easy fundraising'.

Bydd y miloedd o siopau ar-lein sy'n cymryd rhan, fel Tesco, Asda, Amazon ac eBay, yn cyfrannu canran o bob pryniant at yr apêl.

Gellid cael hyd i fwy o wybodaeth, gan gynnwys dolen i lawrlwytho'r ap, ar wefan y Cyngor.

Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Roedd gan yr Aelod Cabinet- Addysg ac Adfywio newyddion gwych i'w rhannu â'r Aelodau ynghylch tair o'n hysgolion lleol.

Yn dilyn adolygiadau diweddar, mae Estyn wedi cadarnhau bod Ysgol Gynradd Tynyrheol wedi gwneud gwelliannau sylweddol. Mae'r ysgol yn cael ei thynnu o fesurau arbennig, ac ni fydd unrhyw waith monitro pellach yn gysylltiedig â hynny.

Mae Ysgol Gyfun Cynffig hefyd wedi cael ei dileu o restr o ysgolion y mae angen cynnal adolygiad dilynol ohonynt ar ôl gweithredu argymhellion a wnaed yn flaenorol gan Estyn.

Barnwyd hefyd fod gan Ysgol Gynradd West Park safonau da, agweddau ardderchog at ddysgu a llesiant, addysgu a phrofiadau dysgu da, gofal, cymorth ac arweiniad ardderchog, a dysgu a rheolaeth dda yn gyffredinol.

Mae Estyn wedi gofyn i bob ysgol lunio astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â chyfraniadau gan grwpiau o ddisgyblion. Bydd yr astudiaethau hyn yn cael eu defnyddio ar ei wefan.

Yr oedd yn sicr y byddai'r Aelodau am ymuno i longyfarch y penaethiaid, yr athrawon, y llywodraethwyr, y staff a'r disgyblion ym mhob un o'r tair ysgol am eu gwaith a'u hymroddiad.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio y byddai Estyn yn cyhoeddi newyddion pellach y mis nesaf ynghylch sawl ysgol arall yn y Sir, ac mai newyddion da fyddai hynny.

I gloi, rhannodd bwt o newyddion ynghylch teithio â'r Aelodau. Ddydd Sul diwethaf, yr oedd wedi teithio'n egnïol o'i dŷ at Orsaf Reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr lle daliodd y gwasanaeth dydd Sul cyntaf ar yr amserlen i fyny i gwm Llynfi, ers toriadau trychinebus Beeching yn y 1960au. Ychwanegodd y byddai mwy o newyddion da ynghylch llinell cwm Llynfi yn 2020.

Y Prif Weithredwr

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bleser o'r mwyaf cael hysbysu'r Aelodau fod Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau newydd wedi cael ei phenodi.

Yn dilyn proses ddethol drwyadl, roedd y panel cyfweld â Phwyllgor trawsbleidiol o Gynghorwyr wedi dewis Janine Nightingale fel yr ymgeisydd llwyddiannus.

Daw Janine yn wreiddiol o Faesteg. Mae hi'n gynllunydd cymwys, ac wedi gweithio yng Nghyngor Caerdydd ac ar lefel Prif Swyddog yn yr adran Drawsnewid a Thir ac Adeiladau.

Ar hyn o bryd, hi yw'r Pennaeth Prosiectau Cyfalaf yn yr Adran Datblygu Economaidd, lle mae hi'n gyfrifol am roi cyfeiriad strategol ac am arwain rhaglen gyfalaf £300 miliwn Caerdydd.

Mae ganddi fwy na 20 mlynedd o brofiad yn rheoli ar lefel uwch mewn llywodraeth leol, ac roedd gweledigaeth uchelgeisiol Janine ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; ei hangerdd amlwg a'i hagwedd gadarnhaol, a'i dealltwriaeth fanwl o'r ardal, wedi creu argraff arbennig ar y Panel.

Yr oedd yn gobeithio y byddai Janine yn gallu dechrau ei rôl newydd yn y Flwyddyn Newydd, erbyn 1 Mawrth 2020 gobeithio, a gwyddai ei bod yn edrych ymlaen at gael cyfarfod â'r Aelodau a'r Swyddogion, ac at chwarae rhan allweddol yn nyfodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

382. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Fel y byddai'r aelodau a oedd yn bresennol yn y sesiwn friffio cyn cyfarfod y Cyngor ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn gwybod, adroddodd yr Arweinydd ei fod yn bleser ganddo gadarnhau y byddai setliad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2020-21 yn cynnwys cynnydd o 4.7% ar gyllideb y llynedd.

Er nad yw hyn yn adfer cyllid yr awdurdod i lefelau blaenorol, dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf mewn cyllid grant craidd ers bron i 12 mlynedd.

Croesewir y cynnydd i'n cyllid grant craidd yn fawr, a byddwn yn awr yn adolygu ein cynlluniau ariannol gwreiddiol ar gyfer 2020-21, gan gynnwys meysydd lle bwriadwyd cyflwyno toriadau, er mwyn sicrhau bod modd gwneud defnydd mor effeithiol ac effeithlon o'r arian ag sy'n bosibl.

Bydd hyn o fudd mawr i'n helpu i liniaru'r pwysau ar y gyllideb, fel costau ychwanegol ym maes addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, yng nghyflogau a phensiynau athrawon a mwy.

Roedd y Cyngor yn dal heb fod yn llwyr ymwybodol o faint y pwysau o ran costau allweddol yn y dyfodol ac, yn arbennig, dyfarniad cyflogau'r holl staff, a allai gostio amryw o filiynau o bunnoedd.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am wrando ar bryderon CBSPO, yn enwedig y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Julia James, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Rebecca Evans, a'r Prif Weinidog Mark Drakeford.

Dywedodd yr Arweinydd fod sawl Cynghorydd wedi bod mewn cysylltiad ag Aelodau'r Cabinet ynghylch camddefnyddio tân gwyllt ar ôl derbyn negeseuon e-bost gan drigolion lleol pryderus.

Cyfarfu ein Cydwasanaeth Rheoleiddio yn ddiweddar, ac ystyriwyd hyn gan ein Haelodau gan gynnwys ein cynrychiolwyr, y Cyng. Patel a'r Cyng. Lewis. Mae'r Pwyllgor wedi casglu nad yw'r gyfraith gyfredol yn gwarchod pobl ac anifeiliaid yn ddigonol rhag yr aflonyddwch a achosir yn fynych gan dân gwyllt, yn enwedig pan fo arddangosiadau cyhoeddus ac arddangosiadau yng nghartrefi pobl yn cael eu cynnal o amgylch dyddiadau traddodiadol a chrefyddol, ac mewn dathliadau eraill fel penblwyddi a phriodasau. Argymhelliad y Pwyllgor yw y dylid grymuso awdurdodau lleol i gyfyngu ar nifer yr arddangosiadau yn eu hardaloedd yn yr amgylchiadau hyn. Bydd cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn nodi ymagwedd arfer gorau at system orfodol ddi-refeniw er mwyn trwyddedu arddangosiadau tân gwyllt, lle ceir tystiolaeth bod angen hynny er mwyn gwarchod y gymuned. Gobeithir y bydd y

Llywodraeth yn gweithio gydag awdurdod lleol i gynnal peilot o'r ymagwedd cyn diwedd 2020, gyda golwg ar greu deddf fydd yn rhoi grym i'r holl awdurdodau lleol sefydlu cynlluniau trwydded gorfodol os ydynt yn tybio bod angen hynny.

383. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU AC ASESIAD EFFAITH GRONNUS

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu adroddiad a drafodai rôl y Cyngor fel awdurdod trwyddedu, fel corff rheoleiddio ar gyfer tafarndai, clybiau, siopau diodydd trwyddedig a siopau cludfwyd sydd ar agor yn hwyr yn y nos.

Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd, ac i gymeradwyo Polisi ac Asesiad Effaith Cronnus arbennig yn rhan o'r broses honno.

Esboniodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod yn rhaid i'r Cyngor gyflawni ei swyddogaethau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a ganlyn:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Amddiffyn plant rhag niwed

Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi dod yn Awdurdod Trwyddedu yn 2005, a'i bod hi bellach yn bryd cynnal adolygiad pum mlynedd o Ddatganiad y Polisi Trwyddedu. Proses ffurfiol yw hon, ac amlinellwyd y broses statudol ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Esboniodd fod yr Ymgynghoriad ar hyn yn cael ei gynnal ar-lein rhwng 17 Mehefin 2019 a 9 Medi 2019. Roedd yr ymgyngoreion statudol yn cynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod Tân, y Cydwasanaethau Rheoleiddio, y Bwrdd Iechyd Lleol, adrannau eraill y Cyngor a'r Swyddfa Gartref.

Yr oedd hefyd yn cynnwys yr holl Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Rheolwr Canol y Dref a chynrychiolwyr masnach.

Yn Natganiad y Polisi Trwyddedu nodir sut mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau a'i ymagwedd at benderfyniadau. Y mae hefyd yn nodi'r hyn y mae'n disgwyl i ddarpar ymgeiswyr ei ystyried wrth baratoi ceisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiadau o bwys. Yn adran 9 y polisi hwn nodir nifer o fesurau y gellid eu hystyried, yn dibynnu ar natur yr eiddo. Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu, ar wahân i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ei bod hi'n deg dweud nad oedd unrhyw dueddiadau na materion newydd yn deillio o'r ymgynghoriad a fyddai'n teilyngu newid polisi. O ganlyniad i hynny, roedd y Datganiad cyffredinol arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd fod y newidiadau i'r datganiad hwnnw wedi'u hamlygu yn goch. Roedd a wnelo'r diweddariadau cyntaf ag amcanion corfforaethol y Cyngor. Roedd siâp neu lefelau meysydd cyfrifoldeb nifer o Gyfarwyddiaethau wedi newid, ac ar sail hynny, roedd angen edrych ymhellach ar rai diwygiadau ar dudalen 40 yr adroddiad, hy, lle'r oedd angen diweddaru rhai o gyfeiriadau'r cyrff a restrwyd yno.

Esboniodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod a wnelo'r ail fater â'r Polisi Effaith Gronnus Arbennig sydd ar waith yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
Mae Effaith Gronnus yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sut y gall dwysedd eiddo trwyddedig mewn ardal neilltuol gael effaith negyddol ar drosedd ac anhrefn, sbwriel wedi'i ollwng, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a niwsans. Os bydd y Cyngor yn gweld bod tystiolaeth o broblem mewn ardal, gall gynnwys polisi i ymdrin ag Effaith Gronnus o fewn y prif Ddatganiad Polisi. Bu polisi o'r fath yn weithredol ar Strydoedd Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ers 2005. Effaith y polisi yw rheoli faint o eiddo newydd neu

newidiadau o bwys i eiddo a geir o fewn yr ardal. Mae'r polisi i bob pwrpas yn creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy yn gysylltiedig â phob cais newydd neu amrywiad, oni all yr ymgeisydd ddangos na fydd ei eiddo yn ychwanegu at y problemau a geir yn y lleoliad dan sylw.

Y prif newid eleni yw bod yn rhaid i'r Cyngor gynnal Asesiad Effaith Gronnus a chyhoeddi dogfen ar wahân cyn mabwysiadu polisi ar gyfer ardal benodol.

Aeth yn ei blaen i esbonio fod Heddlu De Cymru yn gofyn i'r Cyngor gadw'r polisi sy'n gysylltiedig â strydoedd Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a rhannau o Nolton Street ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd llythyr oddi wrth yr Heddlu i'r perwyl hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

O ran yr amcanion trwyddedu, roedd Heddlu De Cymru wedi casglu bod cael polisi effaith gronnus wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ostwng cofnodion trosedd yng nghanol y dref yn ogystal ag achosion o riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ychwanegodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod yr Asesiad drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad. Yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd fod holiadur wedi'i gynnwys i nodi materion sy'n destun pryder yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig yng nghanol y dref.

Mae maint y sampl, sef cyfanswm o 15, yn fach, ac fe gafwyd ymateb gan aelodau o'r cyhoedd, partïon â buddiant a deiliaid trwydded i'r ymgynghoriad hwnnw.
Roedd 93% o blaid cadw'r polisi effaith gronnus ac roedd y prif faterion a oedd yn destun pryder wedi'u rhestru ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 4.7 yr adroddiad.

Roedd y polisi yn un o gyfres o fesurau y gellir eu defnyddio i reoli effaith eiddo trwyddedig, gan gynnwys gorfodi, defnyddio TCC a chynlluniau masnach fel Pubwatch.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu mai casgliad yr asesiad oedd bod tystiolaeth i gefnogi parhau â'r polisi effaith gronnus yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, a bod hynny'n weithred gymesur er mwyn ymdrin â'r problemau a nodwyd yno.

Effaith mabwysiadu'r polisi hwn fydd creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau am eiddo newydd neu i amrywio eiddo presennol yn cael eu gwrthod, lle bo sylwadau perthnasol yn dod i law, yn fwyaf tebygol oddi wrth yr heddlu yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, er y gallai'r sylwadau hynny ymwneud â niwsans cyhoeddus hefyd, oni all yr ymgeisydd ddangos na fydd y cais yn ychwanegu at yr effaith negyddol ar strydoedd canol y dref sydd wedi'u cynnwys yn y polisi

Er nad polisi cyffredinol oedd y polisi hwn, mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y gweithredwr.

Os nad oedd yr awdurdodau cyfrifol na'r cyhoedd yn pryderu o gwbl am arddull arfaethedig na gweithrediad yr eiddo, ac nad oeddent yn cyflwyno unrhyw sylwadau, byddai'r cais yn cael ei ganiatáu.

Daeth y Rheolwr Tîm - Trwyddedu â'i chyflwyniad i ben drwy gadarnhau bod y polisi'n anelu i leihau'r achosion o drosedd ac anhrefn a phroblemau'n gysylltiedig ag alcohol, a sicrhau bod Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn amgylchedd diogel i bobl sy'n ymweld â'r ardal ac yn gweithio ynddi.

Roedd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn croesawu'r adroddiad, ac ychwanegodd fod Aelodau a Swyddogion am weld holl ardaloedd y Fwrdeistref Sirol yn ddiogel yn y pen draw, gan gynnwys canol tref Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn i bawb

allu mwynhau lletygarwch y busnesau a oedd yn ffurfio economi'r nos ym mhob ardal o'r Sir.

Ychwanegodd ei bod hi'n iawn i'r ymgynghoriad dynnu sylw at yr ardaloedd prysuraf a oedd yn destun pryder, ac mai canlyniad cywir hynny oedd bod Heddlu De Cymru wedi gwneud cais i gadw'r Ardal Effaith Gronnus yn rhan o'r Polisi, gan fod achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau. Cyfeiriodd at dudalen 23 yr adroddiad a dywedodd y dylid ychwanegu at y prif drefi a restrwyd, a chynnwys Pencoed.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Polisi yn amharu ar fasnach mewn unrhyw fwytai neu fusnesau bistro drwy'r Fwrdeistref Sirol, waeth a oedd y rheiny'n masnachu eisoes neu'n ddarpar fusnesau newydd.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu mai anaml os o gwbl y byddai'r mathau hyn o lefydd yn denu unrhyw fath o drafferth. Roedd y mannau lle ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tueddu i fod yn lleoliadau mwy a oedd ar agor am gyfnodau hir hyd yr oriau mân, ac nad oeddent yn gweini bwyd, fel clybiau nos ac ati.

Teimlai un o'r Aelodau y dylai'r Ardal Effaith Gronnus gynnwys ardal ar ben uchaf Stryd Nolton ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai hyn yn cynnwys Heol Ewenni a Heol y Bont-faen gan fod nifer o leoliadau ar agor yn hwyr yn y nos mewn ardal weddol gyfyng yn y lleoliad hwn. Roedd hi'n tynnu sylw at hyn gan fod aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau lleol wedi codi pryderon neu wrthwynebu ceisiadau cynllunio neu drwyddedu ar gyfer busnesau yn yr ardal yn y gorffennol, a chan fod pryderon wedi codi ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn neu yng nghyffiniau'r busnesau hyn, a oedd yn agos at lety preswyl.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu y gellid monitro'r ardal hon yn y dyfodol, a phe bai'r pryderon hynny a godwyd yn gwaethygu neu heb wella, y gellid ystyried cynnwys yr ardal hon hefyd yn yr Ardal Effaith Gronnus y tro nesaf y byddai'r polisi'n cael ei adolygu.

Cyfeiriodd Aelod at y rhan honno o'r adroddiad a roddai wybodaeth am yr "Awdurdodau Cyfrifol" a oedd wedi'u cynnwys o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, a nododd fod yr Awdurdod Tân yn cael ei ystyried ymhlith yr awdurdodau hynny. Gofynnodd a oeddent hwy, fel yr Heddlu, wedi cael gwahoddiad i Wrandawiadau Trwyddedu, ac a oeddent wedi gwrthwynebu cais am unrhyw fath o Drwydded yn gysylltiedig â Busnes Hwyr y Nos.

Atebodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu drwy ddweud bod yr Awdurdod Tân yn ymgynghorai statudol pan fyddai unrhyw gais yn cael ei gyflwyno am Drwydded Eiddo newydd, neu i amrywio Trwydded Eiddo bresennol. Roedd hyn ar sail iechyd a diogelwch yn unig, ymhlith rhesymau eraill, hy, uchafswm capasiti'r eiddo ac ati ar unrhyw bryd o ran cwsmeriaid. Pe bai unrhyw un yn gwrthwynebu unrhyw gais o'r fath mewn unrhyw ffordd, boed y sawl sy'n gwrthwynebu yn gorff statudol neu'n aelod o'r cyhoedd, byddai Gwrandawiad yn cael ei drefnu fel bo modd i'r Is-bwyllgor Trwyddedu ystyried safbwyntiau'r holl bartïon perthynol cyn iddo gwneud penderfyniad ynghylch y cais, naill ai i roi caniatâd; rhoi caniatâd gydag amodau neu wrthod y cais.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) Yn cymeradwyo cyhoeddi Datganiad y Polisi Trwyddedu sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad, ar gyfer y cyfnod 2019 hyd 2024.

(2) Hefyd yn cymeradwyo cyhoeddi Asesiad Effaith Gronnus yn rhan o'r Datganiad Polisi Trwyddedu uchod ac yn cymeradwyo Polisi Effaith Gronnus, fel y nodir yn Adran 6 y Datganiad Polisi Trwyddedu y cyfeirir ato uchod.

384. ADRODDIAD I'W NODI ER GWYBODAETH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad er mwyn hysbysu'r Cyngor ynghylch yr Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd, fel y manylwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad cyflwyno.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod bod y ddogfen a restrwyd yn yr adroddiad wedi'i chyhoeddi.

385. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Cwestiwn gan y Cynghorydd T Thomas i'r Aelod Cabinet - Cymunedau**

A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno y dylai priffyrdd yr awdurdod hwn fod yn hygyrch i bawb waeth beth fo'u hoedran, eu hanabledd neu unrhyw nodwedd arall warchodedig?

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Cymunedau**

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i wella mynediad i'r rhwydwaith priffyrdd. Ceir ymrwymiad i sicrhau hynny, a chamau gweithredu i gefnogi'r ymrwymiad hwnnw. Rhwng blynyddoedd ariannol 2017/18 ac 19/20, mae cyfanswm o 113 o gyrbau isel wedi cael eu gosod yn rhan o raglen barhaus i osod cymhorthion i gerddwyr. Cafodd y gosodiadau eu trefnu yn ôl blaenoriaeth ar sail lefelau defnydd yn yr ardaloedd perthnasol.

Bellach mae gennym 61 o lwybrau cerdded diogel i'r Ysgol, a'r rheiny wedi'u hasesu ac yn cael eu defnyddio. Mae gennym raglen gynigion flynyddol i dynnu sylw Llywodraeth Cymru at welliannau arfaethedig i'n rhwydwaith. Drwy'r rhaglen honno llwyddwyd i sicrhau £950,000 o fuddsoddiad eleni yn unig ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, a £432,000 i ddatblygu llwybrau Teithio Egnïol amlddefnydd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas ei fod yn hapus â'r ymateb, ond ychwanegodd y byddai'n gwerthfawrogi cael cyfarfod â'r Aelod Cabinet - Cymunedau ar fater cysylltiedig yn ymwneud â'i ward, a chytunodd yr Aelod Cabinet i hynny.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd JP Blundell**

A allai'r Aelod Cabinet - Cymunedau amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu rhaglen i osod cyrbiau isel ledled y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Mae hyn yn cael ei roi ar waith yn yr ardaloedd lle ceir y mwyaf o gerddwyr ac/neu ar ôl derbyn ceisiadau gan y cyhoedd i osod cyrbiau yn ôl yr angen. Ystyriwyd gwaith hefyd ar y cyd â Chynllun Teithiau Egnïol y Cyngor. Roedd cylchfan Llangrallo yn enghraifft o waith a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun hwnnw, lle gosodwyd cyrbiau isel er mwyn helpu pobl a'u hannog i deithio drwy ddulliau egnïol i fannau penodol, hy swyddfeydd a chanolfannau cyfagos.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd B Sedgebeer**

A yw'r Aelod Cabinet - Cymunedau yn cytuno bod buddsoddi i greu llwybrau troed/troedffyrdd ar Heol Felindre, Pencoed, wedi cynyddu mynediad at y gwahanol rwydweithiau priffordd a geir yn yr ardal honno.

**Ymateb**

Ydy, ac mae hyn yn rhan o raglen ehangach a gaiff ei hehangu i ardaloedd eraill o'r Fwrdeistref Sirol, er mwyn creu pwyntiau mynediad rhwyddach fydd yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fynd o'r naill leoliad i'r llall, yn enwedig pobl anabl ac ati.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor pa gamau a gymerwyd i leihau lefelau Unigrwydd ac Arwahanrwydd ac effaith negyddol hynny ar Iechyd a Llesiant ein poblogaeth oedrannus yn y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

Adroddwyd cyd-destun yr agenda Atal a Llesiant gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Llesiant ym mis Ebrill 2015 yn wreiddiol, a rhoddwyd adolygiad o gynnydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol Oedolion ym mis Ebrill 2016. Cafodd adroddiadau dilynol ar atal a llesiant eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ym mis Mawrth 2018 ac ar 10 Hydref 2019.

Mae'r gwasanaeth Atal a Llesiant yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cyfleoedd cynaliadwy yn y gymuned.

Mae amrywiaeth o weithgareddau a mentrau cymunedol wedi cael eu sefydlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae'r enghreifftiau hyn wedi parhau i gynyddu, gan gynnwys rhaglenni 'Olympage' sy'n helpu oedolion hŷn i gymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau wedi'u haddasu i gynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau unigrwydd, cynyddu hyder a byw bywyd mwy egnïol ac iach. Dechreuwyd cynnal y rhaglenni hyn yn wreiddiol mewn lleoliadau gofal dydd a gofal preswyl, ond ceir bellach raglenni'n gysylltiedig â hybiau cymunedol, rhaglenni i bobl ag anableddau dysgu, gweithgareddau mewn canolfannau cymuned a lleoliadau hamdden/diwylliannol yn ogystal â lleoliadau gofal annibynnol.

“Rydyn ni wedi gallu addasu gweithgareddau a chynllunio cyfres o weithgareddau a digwyddiadau blynyddol er mwyn sicrhau bod modd cynnwys pawb".
**Cydgysylltydd yr Hyb Cymunedol.**

“Ddoe, ymwelais â'r sesiynau Olympage Diwylliannol. Roedd nifer dda yn bresennol. Daeth 15 o'r grŵp i'r sesiynau a chael llond y lle o hwyl. Wrth i'r bobl sgwrsio dechreuwyd dwyn atgofion am gerddoriaeth, a dechreuodd rhai ddawnsio a chanu ohonynt eu hunain hyd yn oed".
**Cynghorydd Cymuned Lleol Cwm Ogwr.**

Drwy adeiladu ar waith a ddatblygwyd drwy'r rhaglen 'Olympage' mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect 'Super-Agers' drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol. Bydd y prosiect hwn yn gweithredu ar draws holl ardal Bwrdd Iechyd newydd Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys Cynghorau Merthyr a Rhondda Cynon Taf, ac mae'n cynnwys gwaith ar y cyd â'r Trydydd Sector ehangach, y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus. Bydd y gwaith yn cynnwys meithrin cydnerthedd yn ein cymunedau drwy sicrhau bod oedolion hŷn yn perchnogi cyfleoedd. Bydd y rhaglen yn cynorthwyo oedolion hŷn i

gynnal ac arwain gweithgareddau, a hefyd yn cynorthwyo gwirfoddolwyr hŷn i gynnal cyfleusterau cymunedol bywiog.

"Wrth inni lansio'r Gronfa Iach ac Egnïol, cyflëwyd y neges fod y manteision i'n hiechyd meddwl a chorfforol yn glir. Mae'r prosiectau hyn yn dangos dull arloesol newydd o gefnogi pobl o bob oed ac o bob cefndir".
**Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.**

Ceir ymgysylltiad cynyddol ag ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gydnabod eu potensial i gyfrannu at Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gwaith pontio'r cenedlaethau a datblygiad cymunedau cyfeillgar ag oed, gan gynnwys:

a. Hyfforddiant cyfeillion ac eiriolwyr dementia mewn ysgolion uwchradd (Ysgol Yr Archesgob McGrath, Ysgol Gyfun Pencoed). Mae hyn wedi golygu gwaith partneriaeth cryf â BAVO. Caiff manteision y gwaith hwn eu hadolygu ymhellach er mwyn nodi unrhyw wersi i'w dysgu cyn ehangu'r rhaglen.
b. Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau rhwng ysgolion cynradd ac oedolion hŷn (rhaglen CCLI - Cwm Ogwr, ymweliadau'r ysgol feithrin â Bryn y Cae ac ati);
c. Prosiectau cyfleuster sydd yn helpu i ddod â phobl ynghyd (Gardd Dementia Bryn y Cae).

"Roedd yn hwyl bod gyda'n gilydd yn chwarae gemau".
**Plentyn Ysgol Gynradd.**
"Digwyddiad gwych…. ac mae pawb wedi mwynhau'n fawr".
**Oedolyn Hŷn.**

Mae rhaglen ranbarthol Bywydau'r Parc wedi bod yn gweithio gydag oedolion hŷn i gael mynediad at gyfleoedd ar garreg y drws yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfleoedd lleol a chyfleus mewn parciau a lleoliadau cymunedol. Mae ffocws ar Tai Chi a Yoga cymunedol wedi cael ei ddatblygu, gyda gweithgareddau'n cael eu harwain gan oedolion sydd wedi derbyn cymorth i feithrin sgiliau a chymwysterau.

"Mae G wedi cael llwyddiant aruthrol wrth ymgysylltu, cyflawni a chynnal diddordeb ein cymunedau hŷn, ac mae e'n wirioneddol anhygoel. Mae e wedi cefnogi gweithgareddau rheolaidd mewn lleoliadau gofal ac yn angerddol iawn ynghylch gwella llesiant pobl hŷn."
**Rheolwr Gweithrediadau, Atal a Llesiant**

Mae'r rhaglen Caru Cerdded yn cefnogi cyfleoedd i gerdded yn y gymuned dan arweiniad gwirfoddolwyr. Mae'r cyfleoedd hynny'n gynhwysol ac yn cyfrannu at les meddyliol. Ceir 13 o deithiau wythnosol a gŵyl Caru Cerdded flynyddol i hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogwyr newydd.

Rheolir Cynllun y Gist Gymunedol gan y Cyngor ar ran Chwaraeon Cymru, ac mae'r cynllun wedi darparu £71,892 o gyllid i gefnogi prosiectau lleol (gan gyfrannu £5,556 at ymdrin ag anghydraddoldeb). Ymhlith yr enghreifftiau y mae cynnwys pobl sydd wedi goroesi strôc yng nghanolfan bowlio dan do Pen-y-bont ar Ogwr, rhaglenni gweithgaredd gyda SHOUT ac ati.

"Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned. Mae'r Clwb Strôc yn defnyddio ein cyfleusterau yn rheolaidd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n haelodau sydd wedi gwirfoddol i sicrhau bod hyn yn digwydd bob wythnos".
**Bowlio Dan Do Ogwr**

Enghraifft arall o gefnogi Unigrwydd ac Arwahanrwydd yw'r Memory Lane Café a sefydlwyd gan aelod o'r cyhoedd, ac a gefnogwyd gan CBSPO, PABM ac AWEN drwy ymagwedd gydgynhyrchiol. Roedd yr unigolyn wedi gweld bod angen datblygu cymorth

cadarnhaol gan gymheiriaid i ofalwyr sy'n cefnogi rhywun sy'n byw gyda dementia. Yr oedd hefyd yn cael ei ystyried yn amgylchedd cadarnhaol a diogel i ofalwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi gael cymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'n cefnogi'r syniad o greu cysylltiadau naturiol ag eraill ac yn cefnogi cydnerthedd gofalwyr. Mae rhwng 20 a 25 o bobl yn mynychu'r grŵp. Yn ddiweddar, mae'r Grŵp wedi ehangu o'r Ganolfan ac yn trefnu teithiau ac yn cynnal gweithgareddau mewn lleoliadau eraill yn y gymuned.

Ceir ymrwymiad i gydweithio â phartneriaid Iechyd yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a bydd yr ymagwedd hon yn cynnwys cydleoli gwasanaethau a all gyfrannu at ganlyniadau llesiant.

Mae'r Hyb Llesiant yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn cyllid o Gronfa Gofal Integredig y Cyngor a Hamdden Halo. Bydd y cyfleusterau yn cefnogi cyflogadwyedd, datblygiad cymunedol a'r gweithlu, gofod ymgysylltu i'r Trydydd Sector ac ystafelloedd gweithgaredd grŵp. Bydd y canlyniadau'n canolbwyntio ar gymorth dementia, atal cwympiadau, trechu unigrwydd ac arwahanrwydd a llesiant corfforol meddyliol.

Bydd y ffocws hwn ar gydleoli a hygyrchedd cyfleusterau a gwasanaethau yn cael ei ehangu i leoliadau eraill os yw'r achos busnes yn cefnogi hynny. Byddai'r lleoliadau dan ystyriaeth yn cynnwys Neuadd y Dref Maesteg, Canolfan Chwaraeon Maesteg, Pafiliwn y Grand (Porthcawl) a chanolfannau cymuned.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn cefnogi pwyllgorau rheoli gwirfoddol canolfannau cymuned a lleoliadau cymunedol. Ceir gwaith partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd am gymorth atal a llesiant, yn enwedig yn gysylltiedig â rhaglenni Cydgysylltu Cymunedol Lleol.

Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi cefnogi cyfleoedd dydd ers sawl blwyddyn, gyda chyfres o egwyddorion yn sail iddynt sy'n canolbwyntio ar yr athroniaeth ganlynol:-

"Dylid cael mwy o wasanaethau lleol sy'n cefnogi presenoldeb cadarnhaol yn y gymuned, gan feithrin perthnasoedd â phobl leol."

Yn y gorffennol, mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi i ddatblygu cynlluniau er mwyn sefydlu Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr, Gwasanaethau Cysylltiedig â Gwaith (WOOD B/BLEAF). Prosiectau seiliedig ar waith yw'r rhain i oedolion ag anableddau ym Mharc Bryngarw a Stad Ddiwydiannol Tondu, a phedwar Gwasanaeth Lleol ar sail model "Dinasyddiaeth Weithredol" wedi'u lleoli'n strategol yn:

- Cwm Calon - Gwasanaeth Lleol Maesteg;
- Canolfan Gymorth Oedolion Sarn - Gwasanaeth Lleol Porth y Cymoedd a Phencoed;
- Tŷ Pen-y-bont - Gwasanaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Canolfan Bywyd y Pîl - Gwasanaeth Lleol y Pîl a Phorthcawl.

Drwy gyllid trawsnewid rhanbarthol a chynlluniau datblygu cysylltiedig, mae'r Cyngor yn gobeithio datblygu 'Cymunedau Cydnerth a Chydgysylltiedig' sy'n cynorthwyo pobl i fodloni anghenion mewn lleoliadau cymunedol a lleihau'r angen am ofal wedi'i reoli. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â BAVO, ac yn rhan o'r prosiect bydd pum rôl "Llywiwr Cymunedol' yn cael eu creu yn gysylltiedig â hybiau cymunedol, ynghyd â chynllun buddsoddi i gefnogi prosiectau bach, canolig a graddfa fawr yn y Trydydd Sector sydd yn gwella'r gefnogaeth mewn lleoliadau cymunedol. Darperir y gronfa drawsnewid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gysylltiedig â'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd A Hussain**

Dynion hŷn yng Nghymru yw'r grŵp mwyaf unig o bobl yn y DU, ac maen nhw'n profi lefelau uchel o arwahanrwydd.

A allai'r Aelod Cabinet ddweud wrthym yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma er mwyn hyrwyddo hyfforddiant ar gynhwysiant digidol i bobl hŷn? (Gan gadw'r 'Pum Thema Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr' mewn cof, rwyf yn cyfeirio at Thema B3)

**Ymateb**

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai naill ai'n rhoi ateb ysgrifenedig mewn ymateb i hyn, neu fel arall gallai'r Cynghorydd Hussein ddod i gynnal trafodaeth bellach ag ef ynghylch yr uchod, a dywedodd yr Arweinydd fod menter o'r enw Sied Dynion yn cael ei chyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol. Roedd y fenter wedi cael ei chyflwyno yn rhan o'r rhaglen Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn ymdrin ag unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol a brofir gan ddynion hŷn. Mae Sied Dynion yn lle i ddynion gael meddwl, dyfeisio a chreu pethau a bod yn rhan o grŵp unigryw sydd ag ymdeimlad o berthyn. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y gweithgareddau a gynhelir yn y siediau yn cynnwys gwaith coed, gwersi cerddorol, gwersi coginio, garddio, creu modelau a chrefft, yn dibynnu ar sgiliau'r grŵp. Ar hyn o bryd, roedd Siediau i'w cael ym Maesteg a Thondu, ac roedd cyfleusterau pellach wedi'u cynnig i ddilyn mewn lleoliadau eraill. Ychwanegodd fod cynhwysiant digidol yn cael ei gynnig yn llyfrgelloedd a Chanolfannau Bywyd y Cyngor er budd y gymdeithas, gan gynnwys yr henoed.

Ar ben hyn, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol fod cynllun o'r enw See Me wedi cael ei gyflwyno yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn rhan o'r cynllun roedd yr unigolyn hŷn yn creu stori am ei fywyd drwy fideo i'w ddangos i'w deulu a'i gysylltiadau agos. Ychwanegodd fod Cynlluniau Gofal Ychwanegol hefyd wedi cyflwyno pensetiau rhith-wirionedd i ddefnyddwyr gwasanaeth. Drwy'r pensetiau gallent brofi anturiaethau o'r byd go iawn fel snorcelu o dan y môr a theithio drwy'r gofod, ymhlith anturiaethau eraill. Ychwanegodd fod ipads hefyd ar gael mewn rhai cyfleusterau Gofal Ychwanegol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod arwahanrwydd ac unigrwydd yn broblem fawr iawn ymhlith yr henoed, a bod hyd at 29% o farwolaethau yn gysylltiedig â hynny mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor yn Awdurdod sy'n Gyfeillgar â Dementia, a oedd yn fath arall o gefnogaeth i bobl sy'n dioddef y salwch hwn. Gorffennodd drwy nodi bod gan y Cyngor hefyd Gydgysylltwyr Cymunedol a oedd yn cydgysylltu sesiynau grŵp yn ein cymunedau i bobl oedrannus a oedd yn profi analluogrwydd ar ryw lefel neu'i gilydd.

Dywedodd un o'r Aelodau y dylid ychwanegu Cynhwysiant Digidol at Flaenraglen Waith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, ac roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn cytuno â'r argymhelliad hwnnw.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd MC Voisey i'r Arweinydd**

A all Arweinydd y Cyngor gyfiawnhau pam ei fod o'r farn na ddylai Aelodau etholedig y Cyngor hwn gael yr hawl i ofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor, a chraffu yn y siambr ar benderfyniadau a wneir gan y weinyddiaeth hon?

**Ymateb yr Arweinydd**

Rheolir gweithdrefn y Cyngor gan y Cyfansoddiad, y cytunir arno yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd MC Voisey**

Mae'n amlwg bod angen inni newid y Cyfansoddiad er mwyn i'r Cyngor hwn fod yn fwy agored i waith craffu gan yr Aelodau, ac er mwyn gwella democratiaeth. A wnaiff yr Arweinydd gyflwyno newidiadau i'r Cyfansoddiad, er mwyn dangos ein bod yn gwrando ar y bobl, drwy gydweithio â hwy a thrwy weithio ar eu rhan.

**Ymateb**

Roedd Gweithgor gwleidyddol trawsbleidiol wedi cael ei sefydlu'n flaenorol er mwyn ystyried newidiadau i'r Cyfansoddiad, gan gynnwys newidiadau'n gysylltiedig â chwestiynau gan yr Aelodau i'r Weithrediaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor, ac adroddwyd ar y newidiadau hynny gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2019, a chytuno arnynt. Gan hynny, roedd unrhyw newidiadau a wnaed i'r Cyfansoddiad wedi cael eu cymeradwyo gan yr Aelodau. Roedd cylch gwaith holl Bwyllgorau ffurfiol y Cyngor yn caniatáu gofyn cwestiynau i Swyddogion (ac i Aelodau Cabinet), ac roedd ymateb i'r cwestiynau hynny naill ai'n cael ei roi yn y cyfarfod, neu os oedd angen ymchwilio i'r cwestiwn cyn gallu rhoi ateb cywir, byddai'r ymateb yn cael ei roi yn dilyn y cyfarfod. Ceir cyfarwyddyd clir yn y Cyfansoddiad fod gan yr Aelodau hawl democrataidd i ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd, a chael ymateb priodol i'r rheiny gan Swyddogion/Aelodau Cabinet.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd T Thomas**

A yw'r Arweinydd yn cytuno y dylai cyhoeddiadau'r Aelodau Cabinet gael eu cyflwyno ar ffurf papurau gwybodaeth yn unig, neu a oes cyfleoedd gwell i Aelodau ofyn cwestiynau (am eu cyhoeddiadau) er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o amser Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cyngor.

**Ymateb**

Ystyriwyd hyn yn flaenorol hefyd gan Weithgor y Cyfansoddiad a hefyd, gan nad yw cyhoeddiadau Aelodau'r Cabinet yn adroddiadau, nid yw'n arferol i'r Aelodau ofyn cwestiynau ynghylch y rhain p'run bynnag.

386. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00